sir ddinbych
denbighshire
Cyngor
County Council

| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Gorffennaf 2023** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol Yr Amgylchedd a'r Economi** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2022/23** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad am waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd) yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ystyried Adroddiad Chwarter 4 (Atodiad 1) ac Adroddiad Blynyddol (Atodiad 2) ar waith a chynnydd y Bwrdd yn ystod 2022-23.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Aelodau yn ystyried cynnwys Adroddiad Chwarter 4 a'r Adroddiad Blynyddol a darparu sylwadau ac adborth, fel bo angen.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 8 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y Cyngor y Fargen Dwf Derfynol gyda Llywodraethau'r DU a Chymru a chytunwyd ar gytundeb llywodraethu (GA2) fel sail i lywodraethu gwaith y Bwrdd i ddarparu'r Weledigaeth Dwf a'r Fargen Dwf. Fel rhan o

GA2, cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn paratoi adroddiad chwarterol ar waith y Bwrdd a'i rannu gyda phob sefydliad partner er mwyn ei gyflwyno i Craffu.

4.2. Cytunwyd hefyd y byddai swyddog o'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gallu mynd i gyfarfod craffu perthnasol unwaith y flwyddyn i ateb cwestiynau. Cytunodd y Pwyllgor Craffu y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod Craffu pan ystyrir yr adroddiadau Chwarter 4/Blynyddol, a bod yr adroddiadau mewn perthynas â Chwarter 1, Chwarter 2 a Chwarter 3 yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth yn unig.

4.3. Mae'r Adroddiad Chwarter 4 (Atodiad 1) a'r Adroddiad Blynyddol (Atodiad 2) y Bwrdd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Bydd swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio, ynghyd â swyddogion perthnasol y Cyngor, yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau'r aelodau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r Fargen Dwf yn seiliedig ar themâu sydd yn unol â themâu a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn codi'n uniongyrchol o graffu'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal gydag eraill cyn y cyfarfod hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd ar flaen yr adroddiad hwn, dyma adroddiad diweddaru, er gwybodaeth yr aelodau, ac nid oed unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyfarniad gofynion llythyr ariannu a GA2.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â chraffu’r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor